

Rhagfyr 2020

PR24 a thu hwnt: Heriau a chyfleoedd y dyfodol ar gyfer y sector dŵr

Ofwat

Cyflwyniad

Cymerwyd cam sylweddol gan adolygiad prisiau 2019 (PR19) tuag at wella'r canlyniadau a gyflawnir gan y sector dŵr. Ar hyn o bryd mae cwmnïau'n bwrw ymlaen i ddarparu ar gyfer eu cwsmeriaid a'r amgylchedd, gan fuddsoddi mewn gwell gwasanaethau a mynd yr ail filltir i gefnogi eu cwsmeriaid trwy effeithiau Covid-19. Wrth edrych ymlaen at adolygiadau prisiau yn y dyfodol, rydym eisiau dechrau ystyried sut y gallwn adeiladu ar PR19, cwrdd â disgwyliadau cwsmeriaid yn y dyfodol, mynd i'r afael â heriau'r dyfodol, a delio ag ansicrwydd.

Fel y nodir gennym yn y ddogfen hon, mae'r sector dŵr yn wynebu heriau dwys yn y blynyddoedd a'r degawdau nesaf. Fel rheolydd, dyma'n heriau ni hefyd. Bydd angen i ni addasu, datblygu ac ail-ddylunio ein fframweithiau a'n prosesau fel y gallwn fynd i'r afael ag anghenion cwsmeriaid, yr amgylchedd a'r gymdeithas ehangach yn y ffordd orau bosibl – nid yn unig yn ystod y pum mlynedd nesaf ond yn y tymor hwy. Megis unrhyw ddiwydiant, bydd angen i gwmnïau newid hefyd os ydynt yn mynd i wynebu'r dyfodol yn hyderus.

Bydd angen i ni addasu ein fframweithiau fel ein bod yn gallu cwrdd ag anghenion cwsmeriaid, yr amgylchedd a'r gymdeithas ehangach yn y ffordd orau bosibl

Llywiwyd ein syniadau cychwynnol gan nifer o ystyriaethau. Bydd gan PR24 rôl bwysig i gyflwyno'n strategaeth, '[Amser i Weithredu Gyda'n Gilydd](#)', sy'n nodi ein huchelgais ar gyfer y sector. Rydym wedi ystyried ein [gwersi a ddysgwyd o PR19](#), gan gynnwys adborth y cwmni a'r rhanddeiliaid a dderbyniom. Rydym wedi ystyried ein dyletswyddau statudol, y blaenoriaethau a'r amcanion strategol a osodwyd ar gyfer Ofwat gan Lywodraethau'r DU a Chymru, polisi'r llywodraeth a mewnwediadau o adolygiadau'r llywodraeth ac arbenigwyr. Mae ein syniadau yn seiliedig hefyd ar yr hyn rydym yn tybio y gallai dyfodol y sector dŵr ymdebygu, a'r heriau a chyfleoedd a allai eu cynnig. Ond ar yr un pryd, rydym yn cydnabod y gall heriau a chyfleoedd wahaniaethu'n ddaeryddol, gan gynnwys rhwng Cymru a Lloegr.

Er mwyn hyrwyddo trafodaeth a dadleuon ynghylch ein rheoliad yn y dyfodol, rydym wedi sefydlu Labordy Syniadau'r Dyfodol. Dyma le i unrhyw un gyflwyno eu syniadau ynghylch sut y dylem lunio adolygiadau prisiau yn y dyfodol i gwrdd â'r heriau a manteisio ar y cyfleoedd rydym wedi'u nodi. Rydym yn croesawu cyfraniadau gan bawb sydd â diddordeb yn y sector. A byddwn yn ystyried yr holl fewnbwn wrth i ni wneud cynnydd gyda'n syniadau.

Ar y dudalen gyferbyn, rydym yn nodi deuddeg cwestiwn allweddol ar gyfer y sector rydym yn meddwl – yn seiliedig ar heriau'r dyfodol a'n profiad o adolygiadau prisiau blaenorol – fyddai'n ddefnyddiol i Ofwat, cwmnïau a rhanddeiliaid geisio eu hateb.


**Bydd angen i ni addasu
ein fframweithiau
fel ein bod yn gallu
cwrdd ag anghenion
cwsmeriaid, yr
amgylchedd a'r
gymdeithas ehangach
yn y ffordd orau bosibl**

- 1** Sut gallai'r sector dŵr edrych yn 2040, a sut gall Ofwat a chwmnïau dŵr weithio tuag at y weledigaeth honno?
- 2** Sut rydym yn rheoleiddio orau i helpu cwmnïau i gyflawni nodau tymor hir megis addasu i newid yn yr hinsawdd, lleihau gollyngiadau, gwella effeithlonrwydd dŵr a darparu sero net?
- 3** Sut rydym yn annog cwmnïau i sicrhau bod gwasanaethau'n fforddiadwy i bawb, nawr yn ogystal â'r tymor hwy?
- 4** Sut gallwn annog cwmnïau i arloesi ac i fanteisio ar newid technolegol i gynyddu cynhyrchiant, lleihau costau a gwella gwytnwch, gwasanaeth a'r amgylchedd?
- 5** Sut rydym yn annog cwmnïau i wella gwasanaeth i gwsmeriaid a gwytnwch gweithredol?
- 6** Sut gallwn annog cwmnïau i ystyried anghenion a blaenoriaethau cwsmeriaid orau, tra'n sicrhau bod gwasanaethau'n gymaradwy ar draws cwmnïau?
- 7** Beth, os o gwbl, allai fod gan rôl yr adolygiad prisiau mewn hybu neu annog cwmnïau i ddarparu gwerth cyhoeddus yn well?
- 8** Sut rydym yn defnyddio marchnadoedd yn well i ddarparu gwell gwerth i gwsmeriaid a'r amgylchedd?
- 9** Sut gallwn egluro materion penodol, amgylchiadau a pholisiau/blaenoriaethau'r Llywodraeth yn y modd gorau yn Lloegr a Chymru?
- 10** Sut gallwn wneud buddiannau buddsoddwyr yn gydnaws â darparu ar gyfer cwsmeriaid, yr amgylchedd a chymdeithas yn y modd gorau?
- 11** Sut rydym yn annog cwmnïau i gydweithio a gweithio ar y cyd ag eraill, megis ar atebion seiliedig ar natur, i gyflawni cyraeddiadau ar gyfer cwsmeriaid a'r amgylchedd yn well?
- 12** Sut gallwn symleiddio'r adolygiad prisiau tra'n cynyddu gwerth i gwsmeriaid, yr amgylchedd a'r gymdeithas ehangach?

Heriau'r dyfodol ar gyfer PR24 ar dudalen




Diogelu a gwella'r amgylchedd yng nghyd-destun newid yn yr hinsawdd



Ennill hyder y cyhoedd a fforddiadwyedd yn wyneb pwysau cost





Arloesi a chydweithio i drawsnewid perfformiad i gwsmeriaid



Rhagweld ac addasu i
ansicrwydd a newid

Diogelu a gwella'r amgylchedd yng nghyd-destun newid yn yr hinsawdd

Mae amgylchedd iach yn sylfaenol i'r sector dŵr yn ogystal â'r gymdeithas ehangach – a gwyddom fod cwsmeriaid yn gynyddol yn dymuno bod eu cwmnïau'n chwarae eu rhan. Rydym yn ystyried y dylai'r sector dŵr wneud y cyfraniad cryfaf posibl tuag at gwrdd â'r heriau amgylcheddol rydym i gyd yn eu hwynebu, tra'n cadw gwasanaethau'n wydn a fforddiadwy. Mae'r heriau hyn wedi'u hymgysylltu ac yn niferus, ond maent yn cynnwys yr angen i gymryd camau gweithredu effeithiol i ddelio â newid yn yr hinsawdd, gwella ansawdd dŵr afon ac ymdrochi, a gwella bioamrywiaeth. Bydd gofyn i gwmnïau, wrth fynd i'r afael â'r rhain, weithio mewn ffyrdd newydd, ar y cyd ag eraill, ac i Ofwat alluogi'r gwaith hwnnw drwy ein fframwaith adolygu prisiau a thu hwnt.

Mae cymryd camau gweithredu i ddelio â newid yn yr hinsawdd nid yn unig y peth iawn i'w wneud. Mae gan newid yn yr hinsawdd oblygiadau a allai fod yn ddifrifol ar gyfer gweithrediad y sector yn y tymor hir. Mae'n debygol y byddwn yn gweld hafau sychach a glaw amlach a mwy trwm ar ddiwrnodau gwlyb. Mae'n debygol y bydd llifau afonydd yn dod yn fwy newidiol. Mae tymereddau uwch ar gyfartaledd yn debygol o achosi newidiadau biolegol yn yr amgylchedd dŵr. Ac mae'r Cyngor Isadeiledd Cenedlaethol wedi rhagweld bod siawns o 25% y ceir sychder difrifol yn y 30 mlynedd nesaf. Mae'r effeithiau hyn, ochr yn ochr â'r angen i leihau tynnu dŵr i fynd i'r afael â heriau amgylcheddol, yn bygwth gwytnwch rhwydweithiau dŵr yn ogystal â'r amgylchedd maent yn gweithredu ynddynt. Mae angen i gwmnïau ddeall eu rhwydweithiau'n ddigonol i gymryd mesurau priodol a rhagweithiol.

Fodd bynnag, mae cwmnïau dŵr mewn sefyllfa gref sydd bron yn unigryw, nid yn unig i ddiogelu, ond i wella'r amgylchedd yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod. Gyda'i gilydd, byddant yn buddsoddi tua £1 biliwn y flwyddyn ar raglenni amgylcheddol statudol yn PR19, a bydd ganddynt nifer o gyfluoedd na wneir y gorau ohonynt ar hyn o bryd i weithio'n fwy agos gyda rhanddeiliaid i leihau llygredd a gwella ansawdd afonydd. Mae pob cwmni wedi dod at ei gilydd i ddatblygu Map Llwybr 2030 fel cam tuag at y nod yn y pen draw o sero net sefydledig a gweithredol erbyn 2050, ac maent wedi gwarantu i haneru lefelau gollwng erbyn 2050 ar yr hwyraf. Dylai'r cylch adolygu prisiau hwyluso a galluogi'r sector i gwrdd â nodau tymor hir. Dylai hefyd annog cwmnïau i ddarparu atebion mor effeithiol â phosibl.

Gwyddom fod amrywiaeth o offer ar gael i gwmnïau gwrdd â heriau amgylcheddol – er ein bod yn cydnabod mai cyflawni canlyniadau sy'n bwysig. Rydym yn gweithio gydag Asiantaeth yr Amgylchedd, Defra a chwmnïau i gynyddu gwerth y prosiectau mae cwmnïau'n eu cyflwyno drwy'r WINEP. Rydym am i gwmnïau archwilio – a bod yn gallu archwilio – sut y gallant ystyried eu gweithrediadau mewn modd sy'n rheoli dalgyllch yn fwy ac yn seiliedig ar systemau, gan osgoi asedau caled sy'n blaenoriaethu'n ddiangen dros atebion sy'n creu gwerth ehangach, megis atebion seiliedig ar natur, llwyfannau marchnad neu newidiadau mewn ymddygiad cwsmeriaid. Hoffem weld cwmnïau'n gweithio gyda thrydydd partion fel mater o drefn i gydlynio, cyd-greu a chyd-ariannu cynlluniau. Ac, i integreiddio'r amgylchedd yn llawn i mewn i'w gweithrediadau, dylai cwmnïau barhau i weithio gyda'i gilydd i ddatblygu fframweithiau a chymwysiadau cyfalaf naturiol addas.

Ennill hyder y cyhoedd a fforddiadwyedd yn wyneb pwysau cost

Mae cwmnïau dŵr yn fonopolïau ac nid oes gan gwsmeriaid ddewis pwy sy'n darparu eu gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff. Mae'r drefn reoleiddiol felly'n hanfodol i hyder y cyhoedd yn y sector. Bydd cwsmeriaid yn pryderu os byddant yn gweld biliau'n cynyddu heb welliannau mewn gwasanaethau. Yn arbennig, mae taliadau uchel i fuddsoddwyr neu weithrediaethau'n peryglu niweidio hyder y cyhoedd pan fyddant yn digwydd ar yr un pryd â digwyddiadau llygredd o bwys, lefelau uchel o ollyngiadau, neu doriadau cyflenwad diangen. Mae dinasyddion a chymunedau'n disgwyl i gwmnïau'n gynyddol - nid yn y sector dŵr yn unig - ystyried effeithiau ehangach eu gweithrediadau ac i ddarparu gwerth cyhoeddus a chymdeithiasol.

Mae p'un ai a yw biliau'n fforddiadwy yn debygol o ysgogi ymddiriedaeth a chyfreithlondeb yn fawr iawn yn y blynyddoedd sydd i ddod

Ar yr un pryd, wrth i gwsmeriaid ddelio ag effaith economaidd pandemig Covid-19, bydd fforddiadwyedd biliau dŵr yn bryder cynyddol. Mae p'un ai a yw biliau'n fforddiadwy yn debygol o ysgogi ymddiriedaeth a chyfreithlondeb yn fawr iawn yn y blynyddoedd sydd i ddod Mae'r sector hefyd yn debygol o wynebu pwysau cost cynyddol wrth i ni nesáu at PR24. Gallai'r rhain gynnwys, er enghraifft:

- newidiadau posibl mae canllaw cynllunio adnoddau dŵr WRMP24 yn gofyn amdanynt, gan gynnwys cynllunio i lefel uwch (1-mewn-500 mlynedd) o wytnwch sychder a chamau gweithredu i leihau gordynnu mewn safleoedd sensitif yn amgylcheddol;
- targedau tymor hir i gyrraedd sero net ar brif allyriadau ac i haneru gollyngiadau erbyn 2050; a
- gweithredu ar y nod tymor hir i ddileu niwed o orlifau storm, tynnu plwm o bibellau, a/neu gwella cynnal a chadw asedau i ddelio â phwysau yn y dyfodol gan gynnwys effaith newid yn yr hinsawdd.

Yn ogystal, mae'n annhebygol y bydd yr un lefel o hyblygrwydd ar gyfer gostwng biliau a greir gan enillion a ganiateir i gwmpo ar gyfalaf, fel a ddigwyddodd yn PR14 a PR19.

Bydd darparu biliau fforddiadwy tra'n sicrhau hyder y cyhoedd yn gofyn am nifer o gamau gweithredu. Mae posibiliadau i gwmnïau dŵr ddarparu gwell cynhyrchiant ac effeithlonrwydd wrth fanteisio ar Ddata Mawr a gwelliannau technolegol, megis rhwydweithiau clyfar. Gallai gwell ffocws ar ddull systemau ac atebion seiliedig ar natur ddarparu cwmpas pellach ar gyfer gwella effeithlonrwydd. Mae gan gwmnïau hefyd y cyfle i greu gwerth cyhoeddus wrth gyflwyno'u gwasanaethau craidd yn wahanol. Ac, yn wyneb pwysau cost lluosog, bydd angen i gwmnïau ystyried sut y byddant yn blaenoriaethu buddsoddiadau a lle y gall marchnadoedd greu gwerth.

Arloesi a chydweithio i drawsnewid perfformiad

Mae dŵr yn wasanaeth hanfodol i gwsmeriaid. Mae cwsmeriaid yn disgwyl i'w cwmnïau dŵr ddarparu lefelau uchel o wasanaeth yn gyson, tra hefyd yn ymateb i'w hanghenion amrywiol, megis y rhai mewn amgylchiadau bregus. Yn ystod 2015–20, gwelom fod rhai cwmnïau'n gwthio terfyn yr hyn sy'n bosibl yn galed mewn sawl maes – gyda rhai'n gwneud gwelliannau oedd yn gwneud argraff mewn amser byr. Fodd bynnag, gwelom hefyd enghreifftiau uchel eu proffil o gwmnïau'n methu â darparu ar gyfer eu cwsmeriaid. Rydym eisiau gweld gwelliannau ym mhob elfen o berfformiad cwmnïau a gweld cynnydd mewn cyflymder a lefel y newid.

Mae gan y diwydiant gyfleoedd gwyb i gynyddu perfformiad. Mae gwelliannau rheoleiddiol megis fframwaith canlyniadau-totecs a'r gronfa arloesi'n helpu i hwyluso'r arloesedd y mae ei angen ar gwsmeriaid. Fodd bynnag, rydym yn meddwl yn gyson am sut i helpu'r sector i wella ymhellach. Er enghraifft, mae gwasanaeth mewn sectorau eraill yn cael ei bersonoli'n gynyddol a'i alluogi'n ddigidol. Datblygwyd sawl newydd-beth defnyddiol gan y gadwyn gyflenwi, sectorau eraill ac mewn gwledydd eraill, y gellir eu haddasu er budd cwsmeriaid dŵr. Wedi dweud hynny, gall yr ateb weithiau fod yn nes at adref: mae bylchau mawr ar hyn o bryd mewn perfformiad rhwng y cwmnïau sy'n perfformio orau a'r gwaethaf mewn sawl ardal. I wneud gwelliannau go iawn, mae angen i newydd-bethau technolegol fod yn gydnaws ag arweinyddiaeth a rheolaeth dda.

I gwrdd â nodau strategol y diwydiant, mae angen i gwmnïau hefyd weithio gydag eraill. Mae atebion cydweithrediadol yn aml yn ennill-ennill, a gallant ddarparu manteision ehangach y tu hwnt i effeithlonrwydd cost. Gwyddom fod defnyddio atebion dalgylch a seiliedig ar natur, er enghraifft, yn gallu helpu i gyflawni gwytnwch, costau tymor hir is, a gostwng allyriadau a llygredd. A hoffem weld cwmnïau'n edrych am ffyrdd arloesol o gynnwys, deall a gweithio gyda'u cwsmeriaid (ac, yn y sector annomestig, gyda manwerthwyr busnes) i newid ymddygiad er gwell. Bydd gostwng y galw cyffredinol am ddŵr yn elfen allweddol mewn mynd i'r afael â heriau'r dyfodol, p'un ai i wella gwytnwch sychder, gostwng allyriadau neu ddiogelu'r amgylchedd dŵr.

Rydym wedi sefydlu RAPID (Cynghrair Reoleiddiol ar gyfer Cynyddu Datblygu Isadeiledd) i hyrwyddo datblygu isadeiledd dŵr newydd a darparu rhyngwyneb di-dor i gwmnïau weithio gyda ni, Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Arolygiaeth Dŵr Yfed. Mae'r Cynlluniau Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff (DWMPs) sydd ar fin ymddangos yn cynnig cyfleoedd pellach i gwmnïau weithio gyda'i gilydd i wella draenio ac ansawdd dŵr amgylcheddol. Her ar gyfer PR24 yw sut y gallwn hwyluso'r cydweithio mwy effeithiol hwnnw ar draws y sector yn y modd gorau.

Rhagweld ac addasu i ansicrwydd a newid

Ledled cymdeithas a'r byd, mae'r blynyddoedd diwethaf wedi'u diffinio'n gynyddol gan newid cyflym, yn annisgwyl yn aml mewn nifer o feysydd. Mae digwyddiadau a datblygiadau'n ymddangos yn fwy ansicr gydag amser. Mae technoleg yn newid yn gyflym, mae gwybodaeth yn ehangu, mae rhwydweithiau'n lledaenu, mae digwyddiadau tywydd yn digwydd yn fwy aml ac mae'r cwsmer yn cael ei rymuso fwyfwy.

Mae gan hyn oblygiadau arwyddocaol ar gyfer y sector dŵr Gwelwyd un o'r tonnau oerfel gwaethaf mewn degawdau yn yr adolygiad prisiau diwethaf. Ar ddechrau'r un hwn, rydym yn barod wedi gweld llawer o'r economi a chymdeithas wedi'u cloi gan pandemig Covid-19, yn ogytal ag un o'r dirwasgiadau gwaethaf a gofnodwyd. Mae ansicrwydd y dyfodol yn creu heriau, ond dylai diwydiant gwydn fod mor barod â phosibl am unrhyw beth. Ac mae gwir gyfluoedd i fanteisio ar newidiadau a datblygiadau newydd i wella gwasnaaethau a lleihau costau, neu i ennill ymddiriedaeth cwsmeriaid wrth eu cefnogi drwy gyfnodau heriol.

Mae gan y sector nifer o uchelgeisiau tymor hir pwysig. Er enghraifft, mae angen i gwmnïau sicrhau gwytnwch rhag sychder yn y dyfodol. Mae'r Comisiwn Isadeiledd Cenedlaethol wedi argymhell y dylai cwmnïau gynyddu capasiti dŵr pedwar biliwn litr arall erbyn 2050. Mae gweithredu nawr yn bwysig – ond mae'r un peth yn wir am adeiladu gallu i addasu a hyblygrwydd i mewn i gynlluniau tymor hir. Bydd pethau'n newid yn ystod y degawdau sydd i ddod, p'un ai mewn ffurf siociau cyflenwad neu drychinebau naturiol, neu newydd-bethau rhagweithiol sy'n lleihau costau atebion. Dylai cwmnïau ystyried sut y gallai eu cynllunio ryngweithio gydag ystod o senarios yn y dyfodol, ac fel rheoleiddiwr, mae angen i ni wneud ein rhan i helpu'r sector i wynebu'r dyfodol gyda hyder.

I ymdopi â siociau a heriau, mae angen i gwmnïau hefyd sicrhau eu bod yn wydn. Mae pob cwmni wedi gwella'u ffordd mewn ymateb i heriau uniongyrchol Covid-19, ond yn 2018 dangosodd y 'Bwystfil o'r Dwyrain' fod angen i'r diwydiant wella darparu cyflenwadau dŵr dibynadwy pan geir digwyddiadau eithafol. Mae sicrhau gwytnwch ariannol yr un mor bwysig, fel y gall cwmnïau osgoi, ymdopi ag a dod dros tarfu ar gyflenwadau. Gall lefelau uchel o erio, er enghraifft, fygwth sefydlogrwydd ariannol a pheryglu cwsmeriaid yn ddiangen.

Mae ansicrwydd y dyfodol yn creu heriau, ond dylai diwydiant gwydn fod mor barod â phosibl am unrhyw beth

Y camau nesaf


Mae agor Labordy Syniadau'r Dyfodol yn lansio adolygiad prisiau 2024. Ochr yn ochr â'r ddogfen hon, mae tri chyhoeddiad arall ar gael gennym i ddylanwadu ar syniadau ynghylch PR24 a thu hwnt:

- [Ystyried dewisiadau cwsmeriaid mewn adolygiadau prisiau yn y dyfodol](#): papur trafod sy'n gwahodd rhanddeiliaid i gyfrannu at drafodaeth am sut i ystyried dewisiadau cwsmeriaid mewn adolygiadau prisiau yn y dyfodol yn y modd gorau
- [Ein hystyriaethau ynghylch gwersi a ddysgwyd o PR19](#): archwiliad o'r hyn rydym wedi'i glywed a'n hystyriaethau ein hunain ynghylch gwersi rydym wedi'u dysgu o PR19, yn dilyn ein hymgysylltiad eang â'r sector; ac
- [Adolygiad PR14 – gofyn am fewnbwn](#): rydym yn gofyn am fewnbwn ynghylch ein hadolygiad o PR14, sy'n gwerthuso'r effaith mae wedi'i chael ar y sector.

Wrth fynd yn ein blaenau, byddwn yn ymgysylltu â chwmnïau a rhanddeiliaid ar sut y gallai adolygiadau prisiau edrych yn y dyfodol, gan gynnwys PR24, Mae hyn yn cynnwys gweithgor rheolaidd i ystyried dyfodol ein fframwaith canlyniadau. Rydym yn cynllunio cyhoeddi digwyddiadau, gweithdai a gweithgorau pellach i ddatblygu syniadau.

Rydym yn bwriadu cyhoeddi ymgynghoriad cychwynnol ar ein dull lefel uchel i PR24 ym mis Mai 2021, sy'n amlinellu'n syniadau cychwynnol ac yn rhoi cipolwg cynnar ynghylch llunio adolygiad prisiau 2024. Bydd cyflwyniadau i Labordy Syniadau'r Dyfodol yn dylanwadu ar ein syniadau trwy gydol PR24 a thu hwnt.

Rydym wedyn yn disgwyl amserlen y PR24 i adlewyrchu'r amserlen a nodir yn PR19. Felly, rydym yn cynllunio rhyddhau methodoleg drafft y PR24 yn ystod haf 2022.



Cyfraniadau at Labordy Syniadau'r Dyfodol

Rydym yn croesawu'ch cyfraniadau i Labordy Syniadau'r Dyfodol ynghylch sut y gallem ddatblygu'r adolygiad prisiau i fynd i'r afael â'r heriau rydym wedi'u nodi a helpu'r sector i i ddarparu gwell canlyniadau ar gyfer cwsmeriaid, yr angylchedd a'r gymdeithas ehangach.

Rydym yn annog ymatebwyr i feddwl am y cwestiynau allweddol rydym yn ystyried y dylai'r sector fynd i'r afael â nhw, fel a amlinellir ar dudalen 3.

I gyfrannu, lanlwythwch eich cyflwyniad ar [dudalen cyflwyno Labordy Syniadau'r Dyfodol](#).

Ar gyfer unrhyw ymholiadau, e-bostiwch futureideaslab@ofwat.gov.uk.

Mae'n bosibl y byddwn yn cyhoeddi ymatebion i Labordy Syniadau'r Dyfodol ar ein gwefan ar www.ofwat.gov.uk. Mae'n bosibl y cyhoeddir neu y datgelir gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i Labordy Syniadau'r Dyfodol, gan gynnwys data personol, yn unol â deddfwriaeth ynghylch mynediad i wybodaeth - yn bennaf Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FoIA), Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a chyfraith diogelu data. I gael gwybodaeth bellach am sut rydym yn prosesu data personol gweler ein Polisi Preifatrwydd.

Os byddwch yn credu na ddylid datgelu unrhyw ran o'r wybodaeth yn eich ymateb (er enghraifft, oherwydd eich bod yn ei hystyried yn sensitif yn fasnachol), dylech nodi'r wybodaeth honno ac esbonio pam, gan roi rhesymau manwl, y byddwn yn eu hystyried wrth benderfynu i'w chyhoeddi ai peidio. Byddwch yn ymwybodol, o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ceir 'Cod Ymarfer' sy'n delio, ymhlith pethau eraill, gyda rhwymedigaethau cyfrinachedd. Os byddwn yn derbyn cais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn rhoi ystyriaeth lawn i'ch eglurhad, ond ni allwn roi sicrwydd i chi y gallwn gynnal cyfrinachedd ym mhob sefyllfa. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchwyd gan eich system TG ynddo'i hun yn cael ei ystyried yn rhwymol ar Ofwat.

Mae Ofwat (yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr) yn adran anweinidogol y Llywodraeth. Rydym yn rheoleiddio'r sector dŵr yng Nghymru a Lloegr.

Ofwat
Centre City Tower
7 Hill Street
Birmingham B5 4UA

Ffôn: 0121 644 7500
Ffacs: 0121 644 7533

© Hawlfraint y Goron 2020

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni bai y nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Lle'r ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael o'n gwefan yn www.ofwat.gov.uk.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn i mailbox@ofwat.gov.uk.

OGL